## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

*Cafodd effaith Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("Deddf Plant Cymru") ar gydraddoldeb ei hystyried yn wreiddiol cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae'r asesiad effaith hwn yn ailasesu effeithiau posibl (Medi 2020) yn dilyn rhoi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2020. Mae'r asesiad effaith hwn wedi'i ddiweddaru yn ystyried unrhyw effeithiau posibl ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ystod y cyfnod o weithgarwch gweithredu hyd y daw Adran 1 (dileu amddiffyniad cosb resymol) Deddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022.*

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn unol â disgrifiad Deddf Cydraddoldeb 2010.**

Yn ystod y cyfnod rhwng y Cydsyniad Brenhinol (Mawrth 2020) a dechrau Adran 1 (diddymu amddiffyniad cosb resymol) o Ddeddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2022, mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu mewn ffordd ymarferol â phosibl. Diben Deddf Plant Cymru yw gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru trwy ddileu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith.

Mae'r hawl ddynol sylfaenol o ddiogelwch rhag trais corfforol neu feddyliol o bob math wedi'i chynnwys mewn cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn yn ymrwymo gwladwriaethau sy'n cymeradwyo'r Confensiwn i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag pob math o drais a mathau eraill o driniaeth greulon a diraddiol. Prif ddiben Deddf Plant Cymru yw helpu i amddiffyn hawliau plant yn ymwneud â'r ddyletswydd sydd wedi'i nodi yn erthygl 19[1]. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cyfeirio at "the obligation of all States parties to move quickly to prohibit and eliminate all corporal punishment and all other cruel or degrading forms of punishment of children".[2]

Pan ddaw adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022 bydd plant yng Nghymru'n cael yr un amddiffyniad cyfreithiol yn erbyn cosb gorfforol ag oedolion. Bydd Deddf Plant Cymru'n gwahardd cosbi plant yn gorfforol gan rieni yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr â Chymru.

Amddiffyniad i'r troseddau ymosod a churo sydd eisoes yn bodoli yn y gyfraith gyffredin yw amddiffyniad cosb resymol. Bydd cyflwyno Deddf Plant Cymru'n dileu'r amddiffyniad cosb resymol. Nid yw hyn yn creu trosedd newydd gan fod yr amddiffyniad ond yn berthnasol i'r troseddau cyfredol o ymosod cyffredin a churo. Ni fyddai'r cosbau cyfredol am y troseddau o ymosod cyffredin a churo yn newid felly[3]. Mae'r heddlu eisoes yn derbyn

[1] Mae Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i Wladwriaethau "take all appropriate legislative, administrative, social and educational measures to protect the child from all forms of physical or mental violence, injury or abuse, neglect or negligent treatment, maltreatment or exploitation, including sexual abuse, while in the care of parent(s), legal guardian(s) or any other person who has the care of the child"

[2] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2006): Sesiwn Pedwar deg Dau. Sylw Cyffredinol Rhif 8: Hawl y plentyn i gael ei amddiffyn yn erbyn cosb gorfforol a mathau eraill o gosb greulon neu ddiraddiol. Genefa: y Cenhedloedd Unedig https://www.refworld.org/docid/460bc7772.html

[3] Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, Adran 39 yn nodi'r canlynol: 'Common assault and battery shall be summary offences and a person guilty of either of them shall be liable to a fine not exceeding level 5 on the standard scale, to imprisonment for a term not exceeding six months, or to both.' Os oes cyhuddiad

adroddiadau am oedolion yn cosbi plant yn gorfforol, ac mae'n cofnodi ac yn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath, yn unol â phrosesau a gweithdrefnau y cytunir arnynt.

Ni fydd dileu'r amddiffyniad yn effeithio ar egwyddorion eraill y gyfraith gyffredin, sy'n cydnabod bod rhiant yn gallu ymyrryd yn gorfforol, er enghraifft, er mwyn diogelu plentyn rhag niwed, neu helpu gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd fel gwisgo neu hylendid a glanweithdra.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried effaith Deddf Plant Cymru ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel, a bydd yn canolbwyntio ar gyflwyno camau lliniaru yn ystod y cyfnod rhwng Cydsyniad Brenhinol a dechrau Adran 1 y Ddeddf. Mae'r tabl isod yn nodi'r effaith bosibl ar wahanol grwpiau a'r mesurau lliniaru y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cyflwyno. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod cosb gorfforol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o rieni (e.e. rhieni iau a'r rhai sydd ag iechyd mamol, corfforol a meddyliol gwael). Hefyd, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod cosb gorfforol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o blant (e.e. plant iau, bechgyn).

Bydd Deddf Plant Cymru'n darparu diogelwch cyfreithiol rhag cosb gorfforol ar gyfer holl blant Cymru waeth a oes ganddynt unrhyw nodwedd warchodedig neu nodwedd arall. Ni fydd yr amddiffyniad o gosb resymol, sy'n gallu bod yn berthnasol i weithredoedd rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid neu'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis mewn unrhyw leoliadau nas rheoleiddir gan gynnwys mannau dysgu, addoli, chwarae, hamdden, yn y cartref neu unrhyw leoliad arall, ar gael bellach.

Gallai rhieni sy'n parhau i gosbi eu plant yn gorfforol ar ôl i Adran 1 Deddf Plant Cymru ddod i rym wynebu cyhuddiadau troseddol. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r effaith bosibl hon i amddiffyn defnyddio cosb gorfforol, sy'n gwrthdaro ag urddas dynol plentyn a'i hawl i gael ei ddiogelu rhag trais o bob math. Wrth ystyried achos o ymosod rhwng dau oedolyn nid ydym yn defnyddio'r posibilrwydd y gall un oedolyn wynebu cyhuddiadau troseddol fel cyfiawnhad dros gyfreithloni ymosod cyffredin. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi gwrthod cyfiawnhad dros gosb gorfforol ar sail budd pennaf y plentyn, awdurdod teulu neu gred grefyddol[4]. Rydym o'r farn fod unrhyw effaith negyddol bosibl ar rieni yn llai na'r broses o wella diogelwch plant â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Er bod gwaith ymchwil wedi nodi bod rhai nodweddion rhieni neu blant yn ffactor risg yn y defnydd o gosb gorfforol, mae penderfyniad rhiant i ddefnyddio cosb gorfforol yn gymhleth. Mae'n gallu dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys dewis a phrofiad personol; strwythur y teulu; y plentyn a'r oedolyn unigol; straen a normau cymdeithasol/diwylliannol. Hefyd, mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau rhywfaint o'r gwaith ymchwil yn ymwneud â chosb gorfforol rhieni, sy'n faes sensitif a chymhleth. Mae llawer o astudiaethau'n dibynnu ar hunan-adroddiadau ôl-weithredol rhieni, sy'n ei gwneud yn anos mesur yn gywir y defnydd

---

bod rhiant neu berson sy'n gweithredu in loco parentis yn cosbi plentyn yn gorfforol, bydd angen i'r heddlu ystyried y prawf tystiolaethol, y prawf budd cyhoeddus a budd pennaf y plentyn cyn penderfynu sut i weithredu. Os oes tystiolaeth ddigonol i'r heddlu ddwyn achos, mae'n gallu ystyried dewisiadau amrywiol, gan gynnwys achos y tu allan i'r llys (e.e. rhybudd, datrysiad cymunedol) neu erlyniad (bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyflwyno hyn). Bydd dedfryd unrhyw un sy'n ei gael yn euog yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, amgylchiadau'r unigolyn ac a oes ganddo unrhyw euogfarnau troseddol blaenorol.

[4] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Sylw Cyffredinol Rhif 8: Hawl y plentyn i gael ei amddiffyn yn erbyn cosb gorfforol a mathau eraill o gosb greulon neu ddiraddiol (2006) CRC/C/GC/8 https://www.refworld.org/docid/460bc7772.html.

o gosb gorfforol. Hefyd, nid yw'r rhan fwyaf o astudiaethau wedi'u cynnal yng Nghymru, ac ni fydd y canfyddiadau'n trosglwyddo i gyd-destun Cymru o reidrwydd.

Mae Deddf Plant Cymru'n gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu a chyhoeddi adroddiad interim 3 blynedd ac adroddiad terfynol 5 mlynedd ar ôl i Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru ddod i rym. Fel rhan o'r gweithgaredd gweithredu hwn bwriedir cynnal y gweithgareddau monitro a gwerthuso canlynol:

- *Effaith ar wasanaethau cyhoeddus:* Mae'r gwaith wedi dechrau, drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro, i ddatblygu dulliau ar gyfer casglu data ar draws sefydliadau i fonitro effeithiau'r ddeddfwriaeth ar wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill.
- *Agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd*: Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio arolygon cynrychiolwyr i olrhain ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid mewn deddfwriaeth a newidiadau mewn agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol. Bydd yr arolygon hyn yn ei galluogi i fonitro'r tueddiadau o gymharu ag arolwg sylfaenol 2018. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei wneud yn flynyddol a chynnwys data o amrywiaeth o grwpiau poblogaeth.
- *Safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid*: Bydd hi'n bwysig hefyd deall sut mae'r newid yn y gyfraith yn cael ei brofi gan amrywiaeth o randdeiliaid fel rhieni ac ymarferwyr drwy ymchwil ansoddol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi a llywio gwaith gweithredu yn ogystal â darparu cyd-destun pwysig ar gyfer dehongli'r ffigurau monitro.

Rhagwelir y bydd yr adroddiadau adolygiad ôl-weithredu'n cyflwyno'r data a gasglwyd drwy'r tair elfen uchod ac yn ystyried goblygiadau ehangach y newid yn y gyfraith. Dylai'r wybodaeth hon ein helpu i asesu effaith y newid yn y gyfraith ar unigolion a'r sector cyhoeddus.

Darpariaeth arall yn Neddf Plant Cymru yw bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r newid yn y gyfraith cyn y daw i rym ym mis Mawrth 2022. Cafodd yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth ar gyfer Deddf Plant Cymru ei hoedi'n swyddogol tra'r oedd holl waith cyfathrebu Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar yr ymateb i argyfwng Covid-19. Bydd yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth yn cynnwys ymgyrch aml-gyfrwng wedi'i thargedu a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd penodol yn ogystal ag amrywiaeth o waith hysbysebu a Chysylltiadau Cyhoeddus. Bydd gwaith codi ymwybyddiaeth yn parhau am gyfnod ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Y nod yw sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grwpiau, cymunedau a sefydliadau penodol i'w hysbysu am y newid yn y gyfraith ac ystyried a oes angen cymorth, cyngor a gwybodaeth ychwanegol.

Mae newid y gyfraith yn dileu unrhyw amwysedd a dryswch ynglŷn â'r math o gosb gorfforol sy'n cael ei hystyried yn rhesymol. Bydd dileu'r amddiffyniad yn darparu sylfaen fwy eglur a chyson ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, gan eu helpu i fabwysiadu dulliau disgyblaeth cadarnhaol – rhywbeth y mae gweithwyr proffesiynol wedi gofyn amdano.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn archwilio'r effeithiau cadarnhaol a sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol posibl, gan gynnwys sicrhau bod rhieni mewn grwpiau

gwarchodedig yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ac yn gwybod sut i gael gafael ar gyngor, cymorth a gwybodaeth.

Nod Deddf Plant Cymru yw helpu i newid ac addasu ymddygiad yn ymwneud â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, gan annog y defnydd o ddulliau anghorfforol o ddisgyblu plant. Mae Deddf Plant Cymru'n nodi yn y gyfraith na all rhieni na'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis sy'n defnyddio cosb gorfforol yn erbyn plant ddibynnu ar amddiffyniad cosb resymol bellach.

Yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn, dyma ystyr y termau canlynol:

**Cosb gorfforol**: unrhyw achos o guro plentyn / plant fel cosb, sy'n cael ei nodi yn Neddf Plant Cymru fel "cosb gorfforol".

**Rhiant**: unrhyw riant ac unrhyw oedolyn arall sydd (ar yr adeg berthnasol) yn gweithredu in loco parentis, gan ofalu am blentyn / plant fel rhiant.

## Cofnod o effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| **Oedran** (meddyliwch am grwpiau oedran gwahanol) | Effaith gadarnhaol Deddf Plant Cymru yw'r ffaith y bydd plant o bob math, waeth beth yw eu hoedran neu oedran eu rhiant, yn cael eu diogelu o dan y gyfraith rhag cael eu cosbi'n gorfforol.<br><br>**<u>Oedran plentyn</u>**<br><br>Mae plant iau yn fwy tebygol o gael eu cosbi'n gorfforol.<br><br>**Effaith gadarnhaol** arfaethedig Deddf Plant Cymru yw ei gwneud yn llai tebygol y bydd plant iau yn cael eu cosbi'n gorfforol. O ganlyniad, bydd eu hawliau'n cael eu parchu a byddant yn cael eu diogelu rhag y canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â chosb gorfforol.<br><br>Yr **effaith negyddol** bosibl yw'r posibilrwydd y bydd rhieni plant ifanc sy'n parhau i gosbi eu plant yn gorfforol ar ôl i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym yn wynebu cyhuddiadau troseddol. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, gall cofnod troseddol effeithio ar gyflogaeth y rhiant a chynyddu'r lefelau straen ar yr aelwyd. Felly, gall hyn arwain at ganlyniadau negyddol ar gyfer y plant. | Pan ddaw adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022 bydd yn dileu'r amddiffyniad o gosb resymol mewn perthynas â chosbi'n gorfforol unrhyw blentyn o unrhyw oedran yng Nghymru.<br><br>**<u>Oedran plentyn</u>**<br><br>Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod plant rhwng dwy a naw oed yn cael eu cosbi'n gorfforol yn amlach na phlant o oedran gwahanol. Mae'r defnydd o gosb gorfforol yn cyrraedd penllanw ar gyfer plant rhwng tair a phump oed (Smith et al., 2005[iii] Halpenny et al 2010[iv] Heilmann et al 2015[v]; Robertson, 2017[vi])<br><br>**<u>Oedran rhiant</u>**<br><br>Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod cosb gorfforol yn cael ei defnyddio'n amlach gan rieni iau o dan 35 oed (Halpenny et al. 2010[vii]; Heilmann et al 2015[viii]). Gall rhieni ifanc wynebu heriau ychwanegol fel bod yn unig riant, byw mewn tai gwael a cheisio byw ar incwm isel.<br><br>Fodd bynnag, awgrymodd arolwg gan Lywodraeth y DU yn 2007[ix] fod cysylltiad rhwng barn rhieni am smacio a'u hoedran (roedd | Bydd Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith a sut y gallai effeithio ar oedolion a phlant. Bydd hyn yn digwydd cyn ac ar ôl i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer rhieni gan gynnwys dulliau amgen i gosb gorfforol sy'n cael eu hystyried yn fwy manteisiol i wella iechyd, llesiant a chanlyniadau hirdymor plant. Fel rhan o'r broses o godi ymwybyddiaeth, bydd y cymorth sydd ar gael i rieni ar hyn o bryd yn cael ei hyrwyddo i rieni trwy'r ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo' a mentrau eraill. Yn ystod y cam gweithredu cyn i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag unigolion allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i wella darpariaeth cymorth rhianta gyfredol i rieni. Mae hyn yn cynnwys ehangu ystod oedran 'Magu plant. Rhowch amser iddo' i 0-18 oed yn hytrach na 0-7 fel y mae ar hyn o bryd.<br><br>Yn ogystal, mae gan rieni yng Nghymru fynediad i linell gymorth sy'n cael ei rhedeg gan Family Lives sy'n darparu cymorth |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | **<u>Oedran rhiant</u>**<br><br>Mae'n ymddangos bod y dystiolaeth yn ymwneud ag oedran rhieni fel ffactor yn y defnydd o gosb gorfforol braidd yn anghyson.<br><br>**Effaith gadarnhaol bosibl** y Bil yw'r posibilrwydd y bydd rhieni yn llai tebygol o gosbi eu plentyn yn gorfforol. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu nad yw rhieni yn gyfforddus â'r syniad o gosb gorfforol, a'u bod yn teimlo'n euog ar ôl ei defnyddio. Felly, byddai peidio â defnyddio cosb gorfforol yn fanteisiol i rieni. Yn ogystal, gallai ysgogi rhieni i fanteisio ar y cymorth rhianta sy'n cael ei gynnig iddynt, gan wella eu hyder, eu llesiant a'u bodlonrwydd â'u rôl fel rhieni.<br><br>Ymddengys bod y defnydd o gosb gorfforol, a'r gefnogaeth iddi, yn lleihau. Yn ôl arolwg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2018[i], roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y rhieni plant ifanc yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn smacio eu plant o'i gymharu â rhieni a atebodd y cwestiwn yn 2015. Diolch i'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i rieni (e.e. trwy Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf ac ymweliadau iechyd cyffredinol), a gwybodaeth | barn rhieni iau am gosb gorfforol yn tueddu i fod yn fwy negyddol na barn rhieni hŷn).<br><br>Nid yw **trosglwyddo'r defnydd o gosb gorfforol rhwng y cenedlaethau** yn anochel. Fodd bynnag, mae cysylltiad cryf rhwng cefnogaeth oedolion ar gyfer cosb gorfforol ag a yw oedolion yn credu bod eu rhieni eu hunain o blaid yr ymarfer ac a gawsant hwy eu cosbi'n gorfforol pan oeddent yn blant .[x xi xii]<br><br>Hefyd, gall rhieni ystyried bod eu rhieni'n ffynhonnell cyngor ar reoli ymddygiad eu plant. Mewn arolwg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2018)[xiii] dywedodd 14% o rieni eu bod yn gofyn am gyngor gan ffrind neu berthynas. Y rhyngrwyd oedd y ffynhonnell fwyaf poblogaidd ar gyfer cyngor a gwybodaeth (52%) ymysg y rhai a oedd wedi chwilio am wybodaeth a chyngor. Dilynwyd hyn gan weithwyr iechyd proffesiynol (35%) ac ysgolion (20%).<br><br>Yn ôl gwaith ymchwil yn Seland Newydd (Stokes et al 2005[xiv]), a gomisiynwyd i gefnogi mentrau rhianta cadarnhaol, yn aml mae gan rieni "ddiffyg ymwybyddiaeth" o rianta, ac maent yn tueddu i ymddwyn yn reddfol, yn aml ar sail eu profiadau eu hunain o fod yn blant. | emosiynol, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar rianta a bywyd teuluol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Family Lives, am gyfnod prawf, i gyflogi derbynnydd galwadau sy'n siarad Cymraeg hyd ddiwedd Mawrth 2021. Mae'r cymorth ychwanegol yn cael ei dreialu am gyfnod cyfyngedig er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd.<br><br>Os oes cyhuddiad bod rhiant neu berson sy'n gweithredu in loco parentis yn cosbi plentyn yn gorfforol, bydd angen i'r heddlu ystyried y prawf tystiolaethol, y prawf budd cyhoeddus a budd pennaf y plentyn cyn penderfynu sut i weithredu. Os yw'r heddlu yn penderfynu dwyn achos, mae'n gallu ystyried dewisiadau amrywiol, gan gynnwys achos y tu allan i'r llys (e.e. rhybudd, datrysiad cymunedol) neu erlyniad (bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyflwyno hyn). Rydym ni a'r heddlu yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio datrysiadau cymunedol a chynlluniau cyfeirio yn hytrach nag erlyn unigolion. Mae angen rhagor o drafodaethau er mwyn cadarnhau'r dewisiadau sydd ar gael a chytuno arnynt. At ddibenion datgeliad cofnodion troseddol, mae datrysiad cymunedol yn arwain at ddata heb fod yn euogfarn nad yw'n cael ei |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | (e.e. trwy'r rhyngrwyd, llyfrau a rhaglenni teledu), mae ymwybyddiaeth rhieni o ddulliau gwahanol o ddisgyblaeth gadarnhaol, a'r defnydd ohonynt, wedi cynyddu.<br><br>**Effaith negyddol bosibl** Deddf Plant Cymru yw'r posibilrwydd y bydd rhieni o unrhyw oedran sy'n smacio eu plant mewn perygl o gael eu cyhuddo a/neu eu herlyn os ydynt yn parhau i gosbi eu plant yn gorfforol os yw'r gyfraith yn newid. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, gall cofnod troseddol effeithio ar gyflogaeth, astudio neu deithio.<br><br>**<u>Neiniau a theidiau</u>**<br><br>Yn aml, mae neiniau a theidiau yn darparu gofal plant rhan-amser neu lawn amser, neu'n gwarchod plant. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod neiniau a theidiau yn darparu tua 40% o ofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio neu'n astudio.[ii] Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol yn ymwneud â'r defnydd o gosb gorfforol gan neiniau a theidiau. Fodd bynnag, **effaith gadarnhaol** Deddf Plant Cymru yw'r ffaith y bydd plant sy'n derbyn gofal gan eu neiniau a'u teidiau yn cael eu diogelu gan y gyfraith rhag cosb gorfforol.<br><br>Hefyd, gall neiniau a theidiau fod yn ffynhonnell | Mae'n bosibl nad ydynt yn myfyrio ar eu dull rhianta. Nododd yr ymchwilwyr bum cam i ddod yn ymwybodol o arferion rhianta: diffyg ymwybyddiaeth; dod yn ymwybodol; barod i newid; gweithredu a chynnal y newid. Mae'r rhain yn debyg i'r Model Camau Newid (Howarth, 2013[xv]).<br><br>Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod rhieni yn gallu newid eu meddwl am gosb gorfforol, a'u defnydd ohoni. Hefyd, mae'n awgrymu bod y newid hwn mewn agweddau ac ymddygiad yn gallu cael ei hwyluso trwy ddarparu gwybodaeth a chymorth i rieni. Yn ôl arolwg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2014[xvi]) dyma'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan unigolion ar gyfer newid eu barn am gosb gorfforol:<br><br>o 'Yr oes yn newid/ newid gyda'r oes'<br><br>o 'Dulliau gwell neu ddulliau eraill o reoli ymddygiad'<br><br>o 'Mae gen i blant erbyn hyn\ dwi'n rhiant'<br><br>Mae hyn yn awgrymu nad yw trosglwyddo cosb gorfforol rhwng y cenedlaethau yn anochel. Mae rhieni yn chwilio am gyngor ar rianta o ffynonellau eraill, a | ddatgelu yn gyffredinol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Atodiad 6 o'r Memorandwm Esboniadol.<br><br>Mae'r gwaith ymchwil yn Seland Newydd (gweler y wybodaeth ar y chwith) yn awgrymu y gall rhieni fod yn barod i dderbyn newid os ydynt yn cael gwybod am effaith negyddol cosb gorfforol neu os ydynt yn deall nad yw'n dderbyniol yn gymdeithasol bellach. Hefyd, gallent fod yn fwy parod i dderbyn newid trwy siarad â gweithwyr proffesiynol. Bydd Deddf Plant Cymru, ochr yn ochr â chymorth rhianta a chodi ymwybyddiaeth, yn helpu i leihau a dileu patrymau o ddefnyddio cosb gorfforol sy'n pontio'r cenedlaethau.<br><br>Bydd neiniau a theidiau sy'n cyflawni rôl gofalwyr sy'n berthnasau yn gallu manteisio ar gymorth rhianta trwy Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn yr un modd â rhieni eraill, os ydynt yn gymwys (e.e. yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg). Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau penodol sy'n darparu cyngor a chymorth i ofalwyr sy'n berthnasau a neiniau a theidiau yn fwy cyffredinol.<br><br>Bydd neiniau a theidiau yn cael eu cynnwys fel grŵp penodol wrth godi ymwybyddiaeth am y newid yn y gyfraith. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | cyngor i rai rhieni. **Effaith gadarnhaol** y ddeddfwriaeth fydd annog rhieni i ddefnyddio dulliau cadarnhaol o ddisgyblu eu plentyn yn hytrach na chosb gorfforol. Yn ogystal, bydd neiniau a theidiau yn fwy tebygol o annog eu plant i rianta mewn ffordd sy'n gyson â'r gyfraith, gan leihau'r defnydd o gosb gorfforol. Dylai Deddf Plant Cymru helpu i leihau'r broses o drosglwyddo cosb gorfforol rhwng y cenedlaethau.<br><br>**<u>Gofal gan Berthynas</u>**<br><br>Hefyd, gall neiniau a theidiau neu aelodau eraill o'r teulu ddarparu gofal llawn amser fel gofalwr sy'n berthynas. Mae'r rhan fwyaf o blant yn derbyn gofal gan berthynas oherwydd nad yw eu rhieni yn gallu gofalu amdanynt. Gall y trefniadau hyn bara ychydig ddyddiau, am gyfnod hirdymor neu'n barhaol. Mae gofal gan berthynas yn cynnwys trefniadau anffurfiol yn y teulu, neu drefniadau mwy ffurfiol fel Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig neu (os yw'r plentyn yn derbyn gofal) gofal maeth gan berthynas.<br><br>Mae gofalwyr maeth sy'n berthnasau eisoes wedi'u gwahardd rhag defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol o dan y rheoliadau maethu. | byddent yn croesawu negeseuon ynglŷn â rhianta cadarnhaol. Bydd Deddf Plant Cymru yn helpu i hyrwyddo newid diwylliant er mwyn gwneud cosb gorfforol yn llai derbyniol.<br><br>Mewn arolwg o rieni plant ifanc a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017[xvii] dim ond 5% a nododd eu bod yn gyfforddus â'r syniad o gosb gorfforol ac y byddant yn ei defnyddio pan fydd angen. Yn ôl gwaith ymchwil yng Ngogledd Iwerddon[xviii] roedd 57% o rieni a oedd wedi defnyddio disgyblaeth gorfforol dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn credu ei bod yn arwain at deimlad o euogrwydd neu edifeirwch yn aml neu bob amser.<br><br>Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y gall cymorth rhianta (gan ymarferwyr sydd â'r hyfforddiant priodol) gynyddu hyder a boddhad rhieni a gwella llesiant (Barrett, 2003[xix], Bywater et al, 2009[xx], Barrett, 2010[xxi]).<br><br>**<u>Gofal gan Berthynas</u>**<br><br>Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 9,560 o blant yng Nghymru yn derbyn gofal gan berthynas, ac roedd tua 60% ohonynt yn byw ar aelwyd yr oedd nain neu daid yn bennaeth arni. Roedd mwy o ofalwyr sy'n | Hefyd, dylai gofalwyr sy'n berthnasau ac yn ofalwyr maeth swyddogol i'w hŵyr/wyres dderbyn cymorth gan yr Awdurdod Lleol.<br><br>Os yw rhieni'n cael eu cyhuddo, byddai ganddynt yr hawl i dderbyn cyngor cyfreithiol am ddim os ydynt yn cael eu holi mewn gorsaf heddlu.<br><br>Bydd unigolyn yn derbyn cymorth cyfreithiol yn awtomatig ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol yn y llys os yw o dan 16 oed (neu o dan 18 oed ac mewn addysg lawn amser) neu ei fod yn derbyn budd-daliadau penodol.<br><br>Mae'n bosibl y bydd unigolion yn talu llai o ffioedd llys os ydynt ar incwm isel neu'n derbyn budd-daliadau penodol ac nad oes ganddynt lawer o gynilion. Ewch i wefan Llywodraeth y DU https://www.gov.uk/legal-aid |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | **Effaith negyddol bosibl** Deddf Plant Cymru yw'r posibilrwydd y gall gofalwyr anffurfiol sy'n berthnasau neu'n Warcheidwaid Arbennig wynebu cyhuddiadau troseddol os ydynt yn cosbi eu hwyrion yn gorfforol ar ôl i'r ddeddf ddod i rym. Hefyd, os yw'r gofalwr sy'n berthynas yn cael ei erlyn a'i ddirwyo, gall hynny effeithio ar ei adnoddau. Nid ydym yn rhagweld y bydd llawer o achosion o'r fath yn codi[5]. | berthnasau ymysg pobl dduon nag unrhyw grŵp arall. Roedd gofal gan berthynas yn fwyaf cyffredin ymysg yr 20% tlotaf o ardaloedd Cymru ac mewn cartrefi sy'n wynebu amddifadedd o safbwynt cyflogaeth, addysg, iechyd ac anabledd a thai yng Nghymru. Roedd plant sy'n derbyn gofal gan berthynas yng Nghymru ddwywaith yn fwy tebygol o fod â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau bob dydd[xxii]. | |
| **Anabledd** (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd) | **<u>Plant anabl</u>**<br><br>Yr **effaith gadarnhaol** arfaethedig ar blant anabl o bob math yw y bydd y gyfraith yn eu diogelu rhag pob math o gosb gorfforol.<br><br>**Effaith negyddol bosibl** Deddf Plant Cymru yw canfyddiad rhai gweithwyr proffesiynol a rhieni na fyddant yn gallu ffrwyno plant os oes angen er mwyn eu cadw'n ddiogel neu atal niwed i eraill.<br><br>**<u>Rhieni Anabl</u>**<br><br>Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar rieni ag anawsterau dysgu er mwyn cyflawni eu | Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym bydd yn dileu amddiffyniad cosb resymol mewn perthynas â chosbi unrhyw blentyn yn gorfforol yng Nghymru.<br><br>**<u>Plant anabl</u>**<br><br>Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y gall fod â phlant sydd ag iechyd gwael neu oedi o ran datblygiad, anabledd, neu broblemau ymddygiad fod yn ffactorau sy'n cynyddu'r perygl o ddefnyddio cosb gorfforol (Bunting, 2008[xxiii]). Dangoswyd bod cynamseroldeb, afiechyd, anableddau corfforol ac anableddau dysgu yn | Fel yr amlinellwyd uchod, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o Ddeddf Plant Cymru ac yn parhau i ddarparu cymorth rhianta. Mae rhai rhaglenni rhianta a gyflwynwyd trwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf wedi'u teilwra i anghenion penodol rhieni â phlentyn anabl. Gall rhai rhaglenni rhianta cyffredinol fod yn addas hefyd, os ydynt yn cael eu cyflwyno gan staff sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion ychwanegol y plentyn.<br><br>Yn ystod y cam gweithredu hwn byddwn yn gweithio gyda sefydliadau Trydydd |

[5] Ni allwn ragweld effaith cysylltiad rhieni â'r system gyfiawnder er sicrwydd gan nad oes unrhyw gynsail yn y DU ar gyfer dileu'r amddiffyniad, ac oherwydd arferion adrodd a chofnodi presennol. Mae'r asesiad hwn wedi'i gwblhau trwy ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael, gan gynnwys defnyddio profiad Seland Newydd fel esiampl. Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gyfiawnder am ragor o wybodaeth.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | swyddogaeth ac addasu i'r newid yn y ddeddfwriaeth.<br><br>Effaith **negyddol bosibl** Deddf Plant Cymru yw'r posibilrwydd y bydd rhieni plant anabl neu rieni anabl sy'n parhau i gosbi plant yn gorfforol ar ôl i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym yn wynebu cyhuddiadau troseddol. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, gall cofnod troseddol effeithio ar gyflogaeth y rhiant a chynyddu straen ar yr aelwyd. Gall hyn arwain at ganlyniadau negyddol ar gyfer y plant.<br><br>Os ydynt yn cael eu cyhuddo, mae'n bosibl y bydd gan y rhieni hyn lai o adnoddau i dalu am gyngor cyfreithiol. Hefyd, os yw'r rhiant yn cael ei erlyn a'i ddirwyo, gall hynny gael effaith ar ei adnoddau, yn enwedig os mai'r rhiant yw prif ofalwr neu unig ofalwr y plentyn. Rydym yn rhagweld mai ychydig iawn o rieni a fydd yn cael eu herlyn, felly gallai nifer fach iawn o rieni gael eu heffeithio. [6] | effeithio ar ymddygiad rhieni a'u dewis o ran disgyblaeth (Henricson, a Grey 2001[xxiv]). Yn ôl Cronfa'r Teulu (sefydliad trydydd sector), mae rheoli ymddygiad yn un o brif bryderon teuluoedd sy'n magu plant anabl.<br><br>Mae'n bosibl y bydd angen gofal corfforol cyson ar blant ag anabledd, a gallai eraill ymddwyn mewn ffordd heriol (Utting, 2006[xxv]; Contact a Family, 2013a[xxvi]; 2013b[xxvii]). Hefyd, gall ymddygiad heriol fod yn arwydd bod rhywbeth o'i le, fel poen neu anghysur nad yw'r plentyn yn gallu ei fynegi mewn ffordd wahanol.<br><br>Mae pobl anabl a theuluoedd â phlant anabl yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi incwm isel (Llywodraeth Cymru 2015)[xxviii].<br><br>**<u>Rhieni Anabl</u>**<br><br>Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod cysylltiad rhwng cosb gorfforol ac iechyd mamol, corfforol a meddyliol gwael. (Heilmann et al 2015[xxix]). Nid yw problemau iechyd meddwl yn effeithio ar y berthynas rhwng rhiant a phlentyn o reidrwydd, ond gallent fod yn gysylltiedig â llai o allu i rianta mewn | Sector i ddeall anghenion penodol rhieni anabl a rhieni plant anabl, gan sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith a sut i gael gafael ar gymorth. Hefyd, byddwn yn ei gwneud yn glir i rieni o bob math, gan gynnwys rhieni â phlant anabl, y byddant yn gallu parhau i ymyrryd yn gorfforol, er enghraifft, er mwyn diogelu eu plentyn rhag niwed neu ei helpu gyda gweithgareddau fel gwisgo.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch, ei bod ar gael mewn fformatau priodol, a'i bod yn cael ei chyfleu'n glir er mwyn diwallu anghenion rhieni anabl ag anghenion ychwanegol.<br><br>Yn ystod y cam gweithredu hwn cyn i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag unigolion allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i wella darpariaeth cymorth rhianta cyfredol i rieni. Mae hyn yn cynnwys ehangu ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' fel ei fod yn cwmpasu'r ystod oedran 0-18, yn hytrach na 0-7 fel y mae ar hyn o bryd. |

[6] Ni allwn ragweld effaith cysylltiad rhieni â'r system gyfiawnder er sicrwydd gan nad oes unrhyw gynsail yn y DU ar gyfer dileu'r amddiffyniad, ac oherwydd arferion adrodd a chofnodi presennol. Mae'r asesiad hwn wedi'i gwblhau trwy ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael, gan gynnwys defnyddio profiad Seland Newydd fel esiampl. Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gyfiawnder am ragor o wybodaeth.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | ffordd gyson a chadarnhaol (Utting, 2006[xxx]). Mae gwaith ymchwil o Gymru (Anabledd Dysgu Cymru, 2008)[xxxi] wedi canfod bod rhieni ag anawsterau dysgu hyd at hanner can gwaith yn fwy tebygol na rhieni eraill o gael eu plant wedi'u tynnu oddi arnynt, fel arfer oherwydd pryderon yn ymwneud â'r perygl o niwed oherwydd esgeulustod yn hytrach na chamdriniaeth. Mae diffyg gwasanaethau cymorth yn ffactor allweddol yn y broses o ddylanwadu ar benderfyniadau'r llys. Mae rhieni ag anawsterau dysgu yn gallu dysgu am ofal plant, diogelwch yn y cartref, iechyd plant a sut i ryngweithio â'u plant. Mae rhaglenni seiliedig yn y cartref yn fwy llwyddiannus. | Fel y nodwyd uchod, gall y rhai ar incwm isel fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol os ydynt yn cael eu cyhuddo, a gallent dalu llai o ffi'r llys os ydynt yn cael eu herlyn.<br><br>Datblygwyd 'Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol' Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod canllawiau ar ymyriad corfforol cyfyngol[7] ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn rhannu fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau. Nod y Fframwaith yw cefnogi arferion yn unol â hawliau dynol a hawliau cyfreithiol sylfaenol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ledled y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg er mwyn lleihau'r defnydd o arferion cyfyngol wrth ymdrin ag ymddygiad heriol, a hyrwyddo'r defnydd o ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth fel "Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol ". O fewn egwyddorion y fframwaith hwn, ni fyddai Deddf Plant Cymru yn effeithio ar allu gweithwyr proffesiynol i ymyrryd yn gorfforol er mwyn diogelu plant a phobl |

[7] "Mae Llywodraeth cymru yn diffinio "ymyriadau corfforol cyfyngol" fel hyn: "cysylltiad corfforol uniongyrchol rhwng personau lle defnyddir grym rhesymol yn gadarnhaol yn erbyn gwrthwynebiad, naill i gyfyngu ar symudiad neu allu unigolyn i symud neu i ddod yn rhydd oddi wrth ymddygiad niweidiol a ddangosir gan unigolyn."

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | ifanc agored i niwed neu atal niwed i eraill. |
| **Ailbennu Rhywedd** (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Byddai plant o bob rhyw, plant trawsryweddol neu'r rhai sy'n trawsnewid yn cael eu diogelu yn yr un modd rhag cosb gorfforol os daw'r ddeddf i rym.<br><br>Effaith **negyddol bosibl** Deddf Plant Cymru yw'r posibilrwydd y bydd rhieni sy'n parhau i gosbi eu plant yn gorfforol ar ôl i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym yn wynebu cyhuddiadau troseddol. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, gall cofnod troseddol effeithio ar gyflogaeth y rhiant a chynyddu straen ar yr aelwyd. Gall hyn arwain at ganlyniadau negyddol ar gyfer y plant. | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw dystiolaeth bod plant sydd yn y broses o ailbennu eu rhywedd yn fwy tebygol o gael eu cosbi'n gorfforol na phlant eraill.<br><br>Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos bod rhieni sydd wedi trawsnewid, neu wrthi'n trawsnewid, yn fwy tebygol o ddefnyddio cosb gorfforol nag unrhyw riant arall. | Fel yr amlinellwyd uchod, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith ac yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i rieni yn ymwneud â dulliau rhianta cadarnhaol. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Effaith gadarnhaol bosibl** Deddf Plant Cymru, a'r broses gysylltiedig o godi ymwybyddiaeth, yw y gall rhieni fyfyrio mwy ar sut y byddent yn dymuno disgyblu eu plentyn heb ei eni. Bydd y rhai sy'n darparu cymorth i deuluoedd sy'n disgwyl babi yn gallu rhoi cyngor clir a diamwys i ddarpar rieni nad yw cosb gorfforol yn dderbyniol yng Nghymru. Bydd rhieni yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad rhianta cadarnhaol o'r cychwyn, a gall hynny gael effaith | Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr hyn sy'n digwydd yn ystod 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd plentyn[8] yn cael effaith sylweddol ar ei ganlyniadau wrth iddo dyfu (Iechyd Cyhoeddus Cymru[xxxii]). Felly, mae cyfnod cynnar bywyd plentyn yn bwysig ar gyfer sefydlu ymddygiad rhianta cadarnhaol.<br><br>Mae ansawdd y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn yn gysylltiedig â datblygu ymlyniad diogel a gwella canlyniadau i blant (O'Connor a Scott, | Bydd darpariaeth amrywiol ar gyfer rhieni beichiog a rhieni newydd ar gael o hyd. Mae'r ymyriadau hyn, gan gynnwys rhaglen Plant Iach Cymru a Dechrau'n Deg, yn ceisio gwella sensitifrwydd ac ymatebolrwydd rhieni i ymddygiad eu babi, a gall hynny wella ansawdd y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn, hyrwyddo ymlyniad diogel a helpu i leihau achosion o rieni'n defnyddio disgyblaeth gorfforol yn y dyfodol.<br><br>Gall hyn gynnwys grwpiau cynenedigol ar gyfer |

[8] Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys beichiogrwydd, geni a'r cyfnod hyd at ben-blwydd plentyn yn ddwy oed.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | gadarnhaol ar y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn. | 2007[xxxiii]; Moullin et al., 2014[xxxiv]). Mae modd meithrin a chefnogi sylfaen y berthynas bwysig hon yn ystod y cyfnod cynenedigol a'r cyfnod ôl-enedigol.<br><br>Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod cosb gorfforol yn gysylltiedig â chanlyniadau tymor byr a hirdymor niweidiol, gan gynnwys perthynas wael rhwng y rhiant a'r plentyn ac ymlyniad anniogel (Smith et al 2005[xxxv]; Heilmann et al, 2015[xxxvi])<br><br>Roedd y Gwerthusiad Cenedlaethol o'r rhaglen Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru 2011[xxxvii]) yn awgrymu y dylid targedu rhieni newydd. Mae rhieni sydd â phlant eisoes yn tueddu i ddatblygu patrymau ymddygiad sefydlog, a gall fod yn anos iddynt newid eu dull rhianta. Trwy annog rhianta cadarnhaol ymysg rhieni newydd, gall unrhyw blant sy'n dilyn fod ar eu hennill oherwydd y dull rhianta cadarnhaol hwn. | mamau a thadau; cynorthwyo menywod beichiog i ddeall pwysigrwydd perthynas gynnar a dull rhianta i iechyd a llesiant eu babi.<br><br>Yn ystod y cam gweithredu hwn cyn i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag unigolion allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i wella darpariaeth cymorth rhianta cyfredol i rieni. Mae hyn yn cynnwys ehangu ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' fel ei fod yn cwmpasu'r ystod oedran 0-18, yn hytrach na 0-7 fel y mae ar hyn o bryd.<br><br>Bydd y broses o godi ymwybyddiaeth yn helpu i sicrhau bod rhieni newydd yn gwybod na fydd yn gyfreithiol bellach iddynt ddefnyddio cosb gorfforol i ddisgyblu eu plentyn pan ddaw Deddf Plant Cymru i rym. |
| **Hil** (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr, Mewnfudwyr, | **Effaith gadarnhaol** y ddeddfwriaeth yw'r ffaith y byddai plant ym mhob cymuned, waeth beth yw eu cefndir ethnig neu ddiwylliannol, yn cael eu diogelu yn yr un modd rhag cosb gorfforol pan | Mae rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig y gall plant o rai grwpiau ethnig gael eu cosbi'n gorfforol yn amlach oherwydd tarddiad ethnig neu ddiwylliannol eu rhieni. Er enghraifft, roedd astudiaeth[xxxviii] ddiweddar gan y sefydliad Africa yn | Fel rhan o'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chymunedau amrywiol yng Nghymru er mwyn deall eu hanghenion penodol. Er enghraifft, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda rhieni ac aelodau teuluoedd â |

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | ddaw Deddf Plant Cymru i rym.<br><br>Gall rhai rhieni wynebu rhwystrau iaith neu lythrennedd sy'n ei gwneud yn anodd iddynt wybod am y newid yn y gyfraith ac am y cyngor sydd ar gael ar ddulliau rhianta cadarnhaol.<br><br>Mae'n bosibl y bydd **effaith negyddol** ar rieni sy'n parhau i ddefnyddio cosb gorfforol. Os ydynt yn cael eu cyhuddo, mae'n bosibl y bydd gan y rhieni hyn lai o adnoddau i dalu am gyngor cyfreithiol. Hefyd, os yw'r rhiant yn cael ei erlyn a'i ddirwyo, gall hynny effeithio ar ei adnoddau. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld mai ychydig iawn o rieni a fydd yn cael eu herlyn, felly ni fyddai llawer o rieni yn cael eu heffeithio[9]. | ystyried agweddau tuag at gosb gorfforol mewn cymunedau Affricanaidd. Astudiwyd y cynnydd yn nifer y plant â rhieni Affricanaidd a gafodd eu cynnwys yn y gofrestr amddiffyn plant o dan y categori cam-drin corfforol (sy'n drothwy uwch o lawer na chosb resymol). Nododd yr adroddiad fod y rhan fwyaf o rieni Affricanaidd yn caru eu plant ac eisiau'r canlyniadau gorau iddynt, ond bod defnyddio cosb gorfforol i ddisgyblu plant yn cael ei ystyried yn ymarfer magu plant diwylliannol a chrefyddol er mwyn datblygu gwerthoedd moesegol, cymeriad cryf a pharch at eraill. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod arferion a allai ymddangos yn 'gyffredin' i lawer o bobl Affricanaidd gael eu hystyried yn arferion sy'n gallu gwneud niwed sylweddol i blant yng nghyd-destun deddfau amddiffyn plant y DU.<br><br>Ar y cyfan, mae'r ymchwil i gam-drin a chosb gorfforol ymysg grwpiau lleiafrifol a grwpiau ethnig yn amhendant ac yn gwrthddweud ei gilydd yn aml. Gall ethnigrwydd gael ei ddrysu â newidynnau eraill (fel statws | chyfrifoldebau gofalu o wahanol gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Cymru i gael eu barn ar ddeunydd hysbysebu a chyfathrebu. Rydym hefyd wedi gofyn i asiantaeth arbenigol gyfathrebu'n uniongyrchol â chymunedau a grwpiau penodol ledled Cymru, yn cynnwys y grwpiau y cyfeiriwyd atynt gyferbyn, a chyngori ar sut y gallwn ddarparu gwybodaeth a chyngor iddynt ar y newid yn y gyfraith yn y ffordd fwyaf effeithiol.<br><br>**Mae ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo'** yn cynnwys gwybodaeth amrywiol am rianta cadarnhaol mewn 10 iaith gymunedol leiafrifol wahanol er mwyn cynorthwyo rhieni i ddefnyddio dulliau amgen i gosb gorfforol. Hefyd, mae gwybodaeth ar gael mewn ffilmiau wedi'u hanimeiddio, a all fod yn ddefnyddiol ar gyfer y rhai â sgiliau llythrennedd cyfyngedig.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio rhwydweithiau presennol ac asiantaethau y gellir ymddiried ynddynt sy'n gweithio gyda rhieni o grwpiau lleiafrifoedd ethnig er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith. |

[9] Ni allwn ragweld effaith cysylltiad rhieni â'r system gyfiawnder er sicrwydd gan nad oes unrhyw gynsail yn y DU ar gyfer dileu'r amddiffyniad, ac oherwydd arferion adrodd a chofnodi presennol. Mae'r asesiad hwn wedi'i gwblhau trwy ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael, gan gynnwys defnyddio profiad Seland Newydd fel esiampl. Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gyfiawnder am ragor o wybodaeth.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | economaidd-gymdeithasol) sy'n ei gwneud yn anodd nodi dylanwad statws grŵp ethnig. (Smith et al 2005[xxxix]; Gershoff, 2010[xl])<br><br>Mae rhieni o leiafrifoedd ethnig yn wynebu nifer o rwystrau gwahanol i fanteisio ar wasanaethau, gan gynnwys gwahaniaethu, rhwystrau iaith a diwylliannol a diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau a sut i gael gafael arnynt. Mae hyn yn berthnasol iawn i fewnfudwyr, ffoaduriaid a theuluoedd sy'n ceisio lloches, a gall eu problemau fod yn waeth oherwydd amgylchiadau trawmatig gadael eu gwlad (Utting, 2006[xli]).<br><br>Mae rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fyw tebygol o fod yn byw mewn cartrefi incwm isel (Llywodraeth Cymru 2015)[xlii]. Dim ond 4.9% o boblogaeth Cymru sy'n dod o gefndir heb fod yn wyn.[xliii]<br><br>Yn ôl adolygiad o ddarparu gwasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003[xliv]) gall teuluoedd fod yn amharod defnyddio gwasanaethau oherwydd ofn stigma a rhagfarn, diffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr gwasanaethau, | Fel y nodwyd uchod, gall y rhai ar incwm isel fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol os ydynt yn cael eu cyhuddo, a gallent dalu llai o ffi'r llys os ydynt yn cael eu herlyn. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | a sgiliau llythrennedd cyfyngedig o bosibl. | |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| **Crefydd, credo a diffyg credo** | **Effaith gadarnhaol** y ddeddfwriaeth yw'r ffaith y bydd plant yn cael eu diogelu gan y gyfraith rhag cosb gorfforol, waeth beth yw eu cefndir crefyddol, credo neu ddiffyg credo.<br><br>Pan ddaw Deddf Plant Cymru i rym, bydd yn dileu'r bwlch cyfreithiol presennol sy'n caniatáu oedolion sy'n gweithredu in loco parentis mewn 'lleoliadau nad ydynt yn addysgiadol' i ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol.<br><br>**Effaith gadarnhaol** Deddf Plant Cymru yw'r ffaith y bydd plant sy'n mynychu lleoliadau i ddysgu, addoli neu ymgymryd â gweithgareddau eraill yn cael eu diogelu rhag unrhyw fath o gosb gorfforol.<br><br>**Effaith negyddol bosibl** Deddf Plant Cymru yw'r posibilrwydd y gall rhai grwpiau crefyddol gredu ei bod yn enghraifft o ymyrraeth y wladwriaeth yn y ffordd y mae eu hathrawiaethau a'u credoau crefyddol yn dylanwadu ar sut maent yn magu eu plant.<br><br>Hefyd, mae'n bosibl y bydd enwadau crefyddol | Yn 2010, argymhellodd adroddiad[xlv] Syr Roger Singleton ar wella cysondeb a diogelwch plant rhag cosb gorfforol y dylid ymestyn y gwaharddiad ar gosb gorfforol mewn ysgolion prif ffrwd a lleoliadau addysgol i bob lleoliad lle mae plant yn dysgu, yn chwarae, yn addoli ac yn derbyn gofal.<br><br>Mae cefnogaeth rhieni ar gyfer cosb gorfforol yn amrywio, i ryw raddau, yn ôl ymlyniad crefyddol. Mae rhai arweinwyr crefyddol yn gwneud cysylltiad rhwng disgyblaeth gadarn a llesiant ysbrydol plentyn. Mae'n bosibl y bydd rhieni yn cael eu hannog i ddefnyddio cosb gorfforol.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o bobl â chredoau crefyddol yn rhannu'r farn hon, er enghraifft, sefydlwyd Rhwydwaith yr Eglwysi ar gyfer di-drais er mwyn ehangu cefnogaeth grefyddol i ddiwygio'r gyfraith a dileu cosbi plant yn gorfforol. | Fel yr amlinellwyd uchod, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ac yn parhau i ddarparu cymorth rhianta.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio rhwydweithiau presennol ac asiantaethau y gellir ymddiried ynddynt sy'n gweithio gyda grwpiau ffydd a grwpiau credo gwahanol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith, gan gynnwys y rhai sy'n cynnal lleoliadau heb fod yn addysgiadol. Rydym hefyd wedi gofyn i asiantaeth arbenigol weithio'n uniongyrchol â grwpiau ffydd a chynghori ar sut y gallwn ddarparu gwybodaeth a chyngor iddynt am y newid yn y gyfraith yn y ffordd fwyaf effeithiol.<br><br>Fel y nodwyd uchod, gall y rhai ar incwm isel fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol os ydynt yn cael eu cyhuddo, a gallent dalu llai o ffi'r llys os ydynt yn cael eu herlyn. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | penodol yn cymeradwyo cosb gorfforol yn benodol ac yn credu bod ganddi awdurdod yr ysgrythur a'i bod yn rhan annatod o fagu plant. Gallai'r rhieni hyn gredu mai mater i'r gydwybod yw hwn, ac efallai na fyddant yn addasu eu hymddygiad os yw'r gyfraith yn newid.<br><br>**Effaith negyddol bosibl**<br>Deddf Plant Cymru yw'r posibilrwydd y bydd rhieni sy'n parhau i gosbi eu plant yn gorfforol ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym yn wynebu cyhuddiadau troseddol. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, gall cofnod troseddol effeithio ar gyflogaeth y rhiant a chynyddu straen ar yr aelwyd. Gall hyn arwain at ganlyniadau negyddol ar gyfer y plant. | | |
| **Rhyw / Rhywedd** | Bydd holl blant Cymru, waeth beth yw eu rhywedd, yn cael eu diogelu gan y gyfraith rhag cosb gorfforol.<br><br>**<u>Rhywedd rhiant</u>**<br><br>Mae'n bosibl y bydd y newid yn y gyfraith yn cael ychydig mwy o effaith ar fenywod na dynion. Mae teuluoedd unig rieni yn fenywaidd yn bennaf ac maent mewn mwy o berygl o fyw ar incwm isel. O ganlyniad, os yw'r rhieni hyn yn cael eu cyhuddo, mae'n bosibl y bydd ganddynt lai o adnoddau i dalu am gyngor cyfreithiol. Hefyd, os yw'r rhiant yn | **<u>Rhywedd rhiant</u>**<br><br>Mae rhywfaint o waith ymchwil wedi ystyried a yw agweddau mamau a thadau (neu ofalwyr gwrywaidd a benywaidd) at ddefnyddio cosb gorfforol yn wahanol. Er bod y dystiolaeth yn gwrthddweud ei gilydd i ryw raddau, mae'n awgrymu bod mamau yn defnyddio dulliau cosbi llai llym a bod tadau yn defnyddio dulliau cosbi llymach. Hefyd, mae'n awgrymu bod mamau'n fwy tebygol o gosbi plant iau yn gorfforol, tra bod tadau'n fwy tebygol o | Fel yr amlinellwyd uchod, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ac yn parhau i ddarparu cymorth rhianta i rieni o bob math, waeth beth yw eu rhywedd.<br><br>Fel y nodwyd uchod, gall y rhai ar incwm isel fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol os ydynt yn cael eu cyhuddo, a gallent dalu llai o ffi'r llys os ydynt yn cael eu herlyn. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | cael ei erlyn a'i dirwyo, gall hynny effeithio ar ei adnoddau. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld mai ychydig iawn o rieni a fydd yn cael eu herlyn, felly ni fyddai llawer o rieni yn cael eu heffeithio[10].<br><br>**<u>Rhywedd plentyn</u>**<br><br>Gall cosb gorfforol gael effeithiau negyddol gwahanol ar fechgyn a merched.<br><br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod bechgyn yn fwy tebygol o gael eu cosbi'n gorfforol, felly gallai Deddf Plant Cymru leihau'r anghydraddoldeb posibl rhwng y plant hyn ar hyn o bryd. | gosbi eu plant yn gorfforol pan ydynt yn hŷn (Smith et al 2005[xlvi]; Heilmann et al, 2015)[xlvii]. Fodd bynnag, gellir priodoli rhai o'r gwahaniaethau hyn i'r ffaith fod mamau'n tueddu i ofalu am eu plant, ac felly maent yn treulio mwy o amser gyda'u plant na'r tadau, yn enwedig pan fydd y plant yn ifanc.<br><br>**<u>Rhywedd plentyn</u>**<br><br>Yn ôl gwaith ymchwil astudiaeth nifer yr achosion[xlviii] gan yr NSPCC, roedd 57% o oedolion ifanc wedi cael eu disgyblu'n gorfforol gan eu mam, ac roedd 42% wedi'u disgyblu'n gorfforol gan eu tad yn ystod plentyndod.<br><br>Mae tystiolaeth bod bechgyn yn cael eu cosbi'n gorfforol yn amlach a/neu'n llymach na merched (Smith et al 2005[xlix]).<br><br>Mae rhai astudiaethau wedi awgrymu bod cosb gorfforol yn fwy niweidiol i fechgyn nag i ferched, ond ni ddaeth astudiaethau eraill yn ymwneud â rhywedd i'r un casgliad (Heilmann et al 2015[l])<br><br>Mae unig rieni (sy'n fenywod yn bennaf) yn fwy tebygol o fyw mewn | |

[10] Ni allwn ragweld effaith cysylltiad rhieni â'r system gyfiawnder er sicrwydd gan nad oes unrhyw gynsail yn y DU ar gyfer dileu'r amddiffyniad, ac oherwydd arferion adrodd a chofnodi presennol. Mae'r asesiad hwn wedi'i gwblhau trwy ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael, gan gynnwys defnyddio profiad Seland Newydd fel esiampl. Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gyfiawnder am ragor o wybodaeth.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | cartrefi incwm isel (Llywodraeth Cymru 2015)[li]. | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod plant sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol mewn mwy o berygl o gael eu cosbi'n gorfforol.<br><br>Pan ddaw Deddf Plant Cymru i rym, bydd plant yn cael eu diogelu yn yr un modd rhag cosb gorfforol, waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol. | Ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â'r defnydd o gosb gorfforol gan rieni LGBT. Fodd bynnag, yn ôl un meta-dadansoddiad o waith ymchwil yn ymwneud â phlant a fagwyd gan rieni hoyw neu lesbiaidd, nid oedd gwahaniaeth rhwng rheolaeth na serch rhieni hoyw neu lesbiaidd a rhieni heterorywiol, hyd yn oed ar ôl ystyried rhagfarn cyhoeddi[lii].<br><br>Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod plant LGBT mewn mwy o berygl o gael eu cosbi'n gorfforol. | Fel y nodwyd uchod, bydd gwybodaeth ar gael i rieni am y newid yn y gyfraith a chymorth rhianta. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli pobl LGBT er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | **Effaith gadarnhaol** yw'r ffaith y bydd holl blant Cymru yn cael eu diogelu gan y gyfraith rhag cosb gorfforol, waeth a yw eu rhieni yn briod, yn sengl, mewn partneriaeth sifil, neu mewn trefniant arall.<br><br>Mae magu plant yn unigol a gwrthdaro priodasol wedi'u nodi fel ffactorau risg yn y defnydd o gosb gorfforol.<br><br>Effaith **negyddol bosibl** Deddf Plant Cymru yw'r posibilrwydd y bydd rhieni sy'n parhau i gosbi eu plant yn gorfforol ar ôl i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym yn wynebu cyhuddiadau troseddol. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, gall | Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod y broses o fagu plant gan rieni sengl (unig rieni) yn ffactor risg ar gyfer defnyddio cosb gorfforol (Heilmann, 2015[liii]). Fodd bynnag, mae'r berthynas rhwng math o aelwyd a defnyddio cosb gorfforol yn anghyson â sawl astudiaeth a ddaeth i'r casgliad nad oes gwahaniaeth yn nifer yr achosion rhwng mamau sy'n byw gyda phartner a mamau sy'n magu plant ar eu pennau eu hunain (Smith et al 2005[liv]). Ffactor arall yw'r ffaith fod llawer o astudiaethau yn canolbwyntio ar aelwydydd unig riant lle mai mam yn | Fel yr amlinellwyd uchod, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ac yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn hyrwyddo rhianta cadarnhaol.<br><br>Mae hyd at £400,000 wedi'i sicrhau o Gronfa'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd ar gyfer 2019-20 er mwyn helpu i liniaru ar effaith bosibl Brexit ar rieni ac ar gydberthnasau o fewn y teulu yn gyffredinol. Darperir y cyllid i wella sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau'r gweithlu i gefnogi teuluoedd mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro rhwng rhieni, gan gynnwys |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | cofnod troseddol effeithio ar gyflogaeth y rhiant a chynyddu straen ar yr aelwyd. Gall hyn arwain at ganlyniadau negyddol ar gyfer y plant.<br><br>Mae unig rieni, rhieni sydd mewn perthynas o wrthdaro a rhieni sengl mewn mwy o berygl o fyw mewn tlodi.<br><br>**Effaith negyddol bosibl** yw'r posibilrwydd y bydd gan y rhieni hyn lai o adnoddau i dalu am gyngor cyfreithiol os ydynt yn cael eu cyhuddo. Hefyd, os yw'r rhiant yn cael ei erlyn a'i ddirwyo, gall hynny gael effaith ar ei adnoddau.<br><br>Fodd bynnag, rydym yn rhagweld mai ychydig iawn o rieni a fydd yn cael eu herlyn, felly ni fyddai llawer o rieni yn cael eu heffeithio[11]. | hytrach na thad yw'r pennaeth, felly gallai rhywedd gael effaith ddryslyd (fel y disgrifiwyd uchod). Gall magu plentyn heb gymorth gynyddu straen ar adegau, ac mae'n bosibl na fydd gan unig rieni gymaint o amser ac egni i ddefnyddio strategaethau sy'n cynnwys arferion sy'n ymateb i ofynion plant, fel rhesymu, darbwyllo a modelu (Smith et al 2005[lv]).<br><br>Mae gwrthdaro priodasol yn ffactor risg arall sy'n dylanwadu ar ddefnydd rhiant o gosb gorfforol. Gall gwrthdaro priodasol arwain at ddicter ac ymddygiad ymosodol sy'n cael eu trosglwyddo o'r rhiant i'r plentyn ar ffurf cosb gorfforol. Nodwyd bod cam-drin domestig yn ffactor risg arwyddocaol ar gyfer pob math o drais yn erbyn plant, gan gynnwys cosb gorfforol (Smith et al 2005[lvi]).<br><br>Mae dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod 28% o blant sy'n byw mewn teuluoedd pâr-rhiant heb waith yn byw gyda rhieni sydd mewn perthynas o wrthdaro. Mae rhieni sy'n wynebu trallod yn eu perthynas yn fwy tebygol o wahanu – ac | lle mae pwysau yn cynyddu yn sgil colli swydd a/neu incwm.<br><br>Byddwn yn parhau i gyfeirio rhieni i gymorth yn ymwneud â pherthnasau, gan gynnwys adnodd ar-lein di-dâl Llywodraeth Cymru 'Magu'r Plant Gyda'n Gilydd – Cefnogi Plant Wrth Wahanu'.<br><br>Byddwn hefyd yn cymryd canlyniadau adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried sut i gefnogi teuluoedd sydd wedi/yn gwahanu ac sydd y tu allan i system y llysoedd.<br><br>Fel y nodwyd uchod, gall y rhai ar incwm isel fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol os ydynt yn cael eu cyhuddo, a gallent dalu llai o ffi'r llys os ydynt yn cael eu herlyn. |

[11] Ni allwn ragweld effaith cysylltiad rhieni â'r system gyfiawnder er sicrwydd gan nad oes unrhyw gynsail yn y DU ar gyfer dileu'r amddiffyniad, ac oherwydd arferion adrodd a chofnodi presennol. Mae'r asesiad hwn wedi'i gwblhau trwy ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael, gan gynnwys defnyddio profiad Seland Newydd fel esiampl. Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gyfiawnder am ragor o wybodaeth.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | mae plant â rhieni sydd wedi gwahanu'n ddiweddar wyth gwaith yn fwy tebygol o fyw mewn teulu heb waith na'r rhai sydd â rhieni sydd wedi aros gyda'i gilydd[lvii].<br>Mae unig rieni (menywod yn bennaf) yn fwy tebygol o fod yn byw mewn cartrefi incwm isel (Llywodraeth Cymru 2015)[lviii]. | |
| **Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed** | Gweler y sylwadau o dan 'Oedran' uchod a chroesgyfeirio gyda'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant | | |
| **Cartrefi incwm isel** | **Effaith gadarnhaol** Deddf Plant Cymru yw'r ffaith y bydd plant yn cael eu diogelu gan y gyfraith rhag cosb gorfforol, waeth beth yw incwm eu rhieni.<br>Mae'n bosibl y bydd effaith **negyddol** ar gyfer y nodwedd warchodedig hon neu'r grŵp gwarchodedig hwn mewn perthynas â rhieni. Mae incwm isel wedi'i nodi'n ffactor risg yn y defnydd o gosb gorfforol. Os ydynt yn cael eu cyhuddo, gall rhieni ar incwm isel fod â llai o adnoddau i dalu am gyngor cyfreithiol. Hefyd, os yw'r rhiant yn cael ei erlyn a'i ddirwyo, gall hynny gael effaith arwyddocaol ar ei adnoddau. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld mai ychydig iawn o rieni a fydd yn cael eu herlyn, felly ni | Mae statws economaidd-gymdeithasol wedi'i nodi'n ffactor risg ar gyfer defnyddio cosb gorfforol (Smith et al 2005[lix]; Heilmann 2015[lx]). Mae llawer o'r gwaith ymchwil yn y maes hwn wedi'i gwblhau mewn gwledydd eraill, felly nid yw'n berthnasol i rieni yng Nghymru o reidrwydd. | Yn ystod y cam gweithredu cyn i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag unigolion allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i wella darpariaeth cymorth rhianta cyfredol i rieni. Mae hyn yn cynnwys ehangu ystod oedran 'Magu plant. Rhowch amser iddo' i 0-18 oed yn hytrach na 0-7 fel y mae ar hyn o bryd.<br>Gall rhywfaint o wybodaeth a chyngor fod yn fwy hygyrch i'r rhai ar incwm isel trwy raglenni cymorth i deuluoedd Llywodraeth Cymru – Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Dylai hyn eu helpu i ddefnyddio dulliau amgen o ddisgyblu plant ac osgoi'r perygl o gael eu cyhuddo neu eu herlyn. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | fyddai llawer o rieni yn cael eu heffeithio [12]. | | Fel y nodwyd uchod, gall y rhai ar incwm isel fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol os ydynt yn cael eu cyhuddo, a gallent dalu llai o ffi'r llys os ydynt yn cael eu herlyn. |

[12] Ni allwn ragweld effaith cysylltiad rhieni â'r system gyfiawnder er sicrwydd gan nad oes unrhyw gynsail yn y DU ar gyfer dileu'r amddiffyniad, ac oherwydd arferion adrodd a chofnodi presennol. Mae'r asesiad hwn wedi'i gwblhau trwy ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael, gan gynnwys defnyddio profiad Seland Newydd fel esiampl. Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gyfiawnder am ragor o wybodaeth.

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Mae **Erthygl 18** o CCUHP sy'n datgan mai buddiannau pennaf y plentyn yw'r mater sylfaenol i rieni yn cynnwys y rhwymedigaeth i ddiogelu plant rhag trais o bob math.<br><br>Mae **Erthygl 19 o CCUHP** yn nodi'r canlynol: 'State Parties shall take all appropriate legislative, social and educational measures to protect the child from all forms of physical or mental violence… while in the care of parents(s)'.<br><br>Mae **Erthygl 37 o CCUHP** yn ei gwneud yn ofynnol i Wladwriaethau sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn cael ei drin | **Effaith gadarnhaol**<br>Deddf Plant Cymru (pan ddaw i rym) yw'r ffaith y bydd holl blant Cymru yn cael eu diogelu gan y gyfraith rhag cosb gorfforol.<br><br>Mae bodolaeth bresennol amddiffyniad cosb resymol yn caniatáu cosbi plant yn gorfforol cyn belled â bod unrhyw anaf sy'n deillio o hynny yn anaf dros dro neu'n anaf dibwys [13]. Nid yw hyn yn bodloni'r rhwymedigaethau hawliau dynol a bennwyd gan gyrff cytuniadau hawliau dynol perthnasol, gan gynnwys CCUHP; Pwyllgor Hawliau Cymdeithasol Ewrop; Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig; Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod; a'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol. Mae datganiadau gan y cyrff cytuniadau hyn wedi nodi bod dulliau llai difrifol o gosb gorfforol yn mynd | Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi nodi'n glir nad yw'n credu bod cosbi plant yn gorfforol yn gyson â CCUHP. Fel rhan o adroddiad pedwaredd sesiwn y Pwyllgor ym 1993, nodwyd bod y Pwyllgor wedi: *"recognized the importance of the question of corporal punishment in improving the system of promotion and protection of the rights of the child".* Mae CCUHP yn diffinio 'cosb gorfforol' fel "*any punishment in which physical force is used and intended to cause some degree of pain or discomfort, however light."*<br><br>Mae wedi cyhoeddi sylw cyffredinol Rhif 8[14] er mwyn nodi ei gydnabyddiaeth o hawl y plentyn i gael parch ar gyfer ei urddas dynol, uniondeb corfforol, a diogelwch cyfartal o dan y gyfraith.[lxi] Mewn Arsylwadau Cloi[15] olynol, mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn wedi ailadrodd ei | Nid yw Deddf Plant Cymru yn datgan na all rhieni ddisgyblu eu plant. Hefyd, nid yw'n gwahardd ymyriadau corfforol gan rieni nad ydynt yn cynnwys cosb gorfforol. Nid yw Deddf Plant Cymru yn gwahardd defnyddio awdurdod rhieni sydd angen ymyriadau corfforol o bosibl at ddibenion defnyddio dulliau amgen i gosb gorfforol. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, cario plentyn i ardal ymdawelu.<br><br>Bydd cymorth, gwybodaeth a chyngor ar rianta ar gael i rieni o bob math, a bydd hyn yn cynnwys dulliau amgen i gosb gorfforol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith a fydd yn nodi'r effaith bosibl ar rieni a phlant. Bydd hyn yn digwydd cyn ac ar ôl i'r ddeddf newydd ddod i rym. |

[13] Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cadarnhau y gellir ystyried trosedd o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn ymosodiad cyffredin dim ond os yw'r anaf yn anaf dros dro ac yn ddibwys a'i fod yn ddim byd mwy na chochi'r croen dros dro. Troseddau yn erbyn y Person, gan gynnwys y Safon Gyhuddo https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/offences-against-person-incorporating-charging-standard

[14] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2006): Sesiwn Pedwar Deg Dau. Sylw Cyffredinol Rhif 8: Hawl y plentyn i gael ei ddiogelu rhag cosb gorfforol a mathau eraill o gosb greulon neu ddiraddiol. Genefa: Y Cenhedloedd Unedig

[15] http://ww1.advancingchildrensrights.com/?sub1=20200923-2245-03c9-ab05-366bc8863307

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
| --- | --- | --- | --- |
| neu ei gosbi mewn ffordd ddiraddiol.<br><br>**Mae Erthygl 3 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop Llys Hawliau Dynol Ewrop** yn gwahardd artaith a thriniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol.<br><br>**Siarter Hawliau Dynol Ewrop**<br><br>**Erthygl 8**<br><br>Yr hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol<br><br>**Erthygl 9 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop**<br><br>Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd<br><br>**Erthygl 9 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop**<br><br>Rhyddid mynegiant | yn groes i hawliau dynol, ac maent wedi gwrthwynebu unrhyw fath o gosb gorfforol yn gyson.<br><br>Mae Deddf Plant Cymru yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant o dan CCUHP. Bydd hyn yn cael **effaith gadarnhaol** ar holl blant Cymru, a fydd yn gwybod, yn unol ag Erthygl 19, bod ganddynt yr hawl i gael eu diogelu rhag trais fel pawb arall. Trwy Ddeddf Plant Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn gwahardd cosb gorfforol yn erbyn plant yng Nghymru.<br><br>Mae rhai grwpiau ac unigolion sy'n gwrthwynebu dileu amddiffyniad cosb resymol wedi dadlau y bydd gwneud hynny yn mynd yn groes i Erthygl 8 (yr hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol); Erthygl 9 (Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd); ac Erthygl 10 (Rhyddid mynegiant) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<br><br>Nid yw Erthygl 8 yn gwahardd ymyrraeth y Wladwriaeth mewn rhianta: gellir cyfiawnhau hynny os yw'n cael ei ragnodi gan y gyfraith, er mwyn cyflawni amcan dilys sy'n angenrheidiol | argymhelliad y dylai'r DU wahardd *"all corporal punishment in the family, including through the repeal of all legal defences, in England and Wales, Scotland, and Northern Ireland"*. Ailadroddwyd yr argymhelliad hwn yn adroddiad diweddaraf y Pwyllgor ym mis Mehefin 2016.<br><br>Hefyd, yn ôl Casgliadau XV-2 (Y Deyrnas Unedig) (2001) y Pwyllgor Ewropeaidd ar Hawliau Cymdeithasol:<br><br>*"To prohibit any form of corporal punishment of children is an important measure for the education of the population in this respect in that it gives a clear message about what society considers to be acceptable. It is a measure that avoids discussions and concerns as to where the borderline would be between what might be acceptable corporal punishment and what is not."*<br><br>Mae pryderon ynglŷn â diffyg gwaharddiad penodol ar gosb gorfforol yn y cartref ac am amddiffyniad cyfreithiol "cosb resymol" wedi'u mynegi gan nifer o gyrff hawliau dynol eraill y Cenhedloedd Unedig hefyd: | |

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
| --- | --- | --- | --- |
| | mewn cymdeithas ddemocrataidd. Nod Deddf Plant Cymru yw diogelu hawliau plant, fel y'i nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig yr hawl i ryddid rhag trais yn y cartref a'r tu allan i'r cartref.<br><br>Ni fydd Deddf Plant Cymru yn atal rhieni rhag bod â chredoau crefyddol neu fynegi'r credoau hynny. Y cwbl y byddai'n ei wneud yw eu hatal rhag gweithredu ar gred bod cosb gorfforol yn ddull disgyblu angenrheidiol.<br><br>**Effaith gadarnhaol** arall yw'r ffaith fod amddiffyniad cosb resymol ar gael i rywun sy'n gweithredu in loco parentis, er bod cosb gorfforol wedi'i gwahardd mewn ysgolion. Gellid cyflwyno dadl gryfach o blaid gwahardd cosbau corfforol o bob math gan unrhyw un nad yw'n rhiant y plentyn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod Deddf Plant Cymru yn sicrhau y bydd Cymru yn cydymffurfio ag argymhellion Pwyllgor y | • **Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig** – Adroddiad y Gweithgor ar yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol o Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon (cyhoeddwyd 14 Gorffennaf 2017).[16]<br>• **Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn Erbyn Menywod**[17] - Sylwadau cloi ar seithfed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon (cyhoeddwyd 30 Gorffennaf 2013)<br>• **Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol**[18] - Sylwadau cloi Pwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig ar seithfed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon (cyhoeddwyd 17 Awst 2015)<br><br>Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi ystyried nifer o achosion a gafodd eu cyflwyno gan blant a rhieni sy'n gwrthwynebu | |

[16] https://www.ohchr.org/EN/HRBodies/HRC/Pages/Home.aspx
[17] https://www.ohchr.org/en/hrbodies/cedaw/Pages/CEDAWIndex.aspx
[18]http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2FPPRiCAqhKb7yhsg%2FOK3H8qae8NhIDi53MecJ8Es8JxwwaL1HQ8hgVMkgor%2Ba2BnDTW%2FHC6BIyM8TPJNF%2F6qe%2Bcdb0NBnXp%2BA57rBA17cvjmBwuivD2gq5FYEj

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| | Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sydd wedi datgan bod yr amddiffyniad yn anghydnaws â rhwymedigaethau Cymru o dan erthygl 19 (diogelwch rhag trais o bob math) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hefyd, mae'n gyson ag argymhellion nifer o gyrff rhyngwladol allweddol eraill fel Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod. | gwaharddiad ar gosb gorfforol.<br><br>Yn y gorffennol, mae wedi dyfarnu nad oes modd cyflwyno achosion sy'n gwrthwynebu gwaharddiad ar gosb gorfforol ar sail erthyglau 8 a 9. Ar ddiwedd achos Abrahamsson v Sweden 1987[19] daeth y Comisiwn i'r penderfyniad hwn: "*the scope of the Swedish law of assault and molestation is a normal measure for the control of violence and that its extension to apply to the ordinary physical chastisement of children by their parents is intended to protect a potentially weak and vulnerable member of society".*<br><br>Hefyd, mae llysoedd y DU wedi ystyried achos a gyflwynwyd gan rieni ac athrawon a oedd yn gwrthwynebu gwaharddiad ar gosb gorfforol - Williamson v UK 2000[20]. Dywedodd yr Hawlwyr eu bod yn pryderu am rywbeth pwysicach nag uniondeb | |

[19] Roedd yr hawlydd, rhiant o Sweden, wedi cwyno bod y gwelliant i gyfraith Sweden yn ymwneud â chosbi plant yn gorfforol yn mynd yn groes i'w hawl ar gyfer bywyd teuluol, rhyddid crefydd, a'i hawl i sicrhau bod addysg ac addysgu ei blant yn cyd-fynd â'i ddaliadau crefyddol ac athronyddol ei hun. Daeth y Comisiwn i'r casgliad nad yw cyfraith droseddol Sweden yn ymyrryd yn yr hawl i sicrhau parch ar gyfer bywyd preifat a bywyd teuluol yn unol ag ystyr Erthygl 8 ac nad oedd unrhyw ymyrraeth mewn hawliau'r ymgeisydd fel y'u gwarentir gan Erthygl 9. http://webcache.googleusercontent.com/search?q=cache:FxNseZBLPlgJ:hudoc.echr.coe.int/app/conversion/pdf/%3Flibrary%3DECHR%26id%3D001-443%26filename%3D001-443.pdf+&cd=1&hl=en&ct=clnk&gl=uk

[20] Heriodd yr hawlwyr ymestyn y gwaharddiad ar gosb gorfforol i bob ysgol (adran 548 o Ddeddf Addysg 1996), gan ddadlau ei bod yn anghydnaws â'u hawl i ryddid crefydd a rhyddid i ymarfer eu crefydd, sy'n cael eu gwarantu gan Erthygl 9 o'r Confensiwn. Honodd yr hawlwyr eu bod yn siarad ar ran 'corff mawr o'r gymuned Gristnogol' y mae ei chredoau yn ymwneud â'r defnydd o gosb gorfforol gan rieni ac athrawon yn seiliedig ar ddehongliad o ddarnau penodol o'r Beibl. Gwrthodwyd eu cais am adolygiad barnwrol a'u hapêl i'r Llys Apêl. http://echr.ketse.com/doc/29308.95-en-19970521/view/

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| | | corfforol, sef uniondeb moesegol y plentyn, a bod unrhyw drallod yn cael ei gyfiawnhau gan yr amcan. Gwrthododd yr Uchel Lys y ddadl hon, ac yn ôl y Llys Apêl, nid oedd y gwaharddiad ar gosb gorfforol mewn ysgolion yn ymyrryd yn sylweddol mewn hawliau rhieni o dan Erthygl 9. Hefyd, dywedodd: "*What section 548 prevents is the teachers acting on their beliefs. It does nothing to prevent them and the parents from holding those beliefs, or from conveying those beliefs to others by any means that they think fit*."<br><br>Dywedodd y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2003-4)[21] fod adran 58 o Ddeddf Plant 2004 (sydd wedi dileu cosb resymol fel amddiffyniad ar gyfer troseddau ymosod mwy difrifol) yn debygol o fodloni Erthygl 3 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y'i dehonglir ar hyn o bryd gan Lys Hawliau Dynol Ewrop. Fodd bynnag, nododd nad yw'n bodloni holl rwymedigaethau CCUHP neu'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, yn unol â | |

[21] https://publications.parliament.uk/pa/jt200304/jtselect/jtrights/161/16107.htm

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| | | dehongliad y Pwyllgorau perthnasol.<br><br>Mae Erthygl 8: parch ar gyfer bywyd preifat a bywyd teuluol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol yn cynnwys cysyniadau uniondeb corfforol. Er nad yw wedi'i phrofi yn y llysoedd, gallai ddarparu diogelwch y tu hwnt i'r diogelwch a ddarperir gan Erthygl 3, er mwyn cefnogi dilysrwydd deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol.<br><br>Nid yw Erthygl 9: rhyddid crefydd a chredo wedi'i defnyddio'n llwyddiannus er mwyn herio gwaharddiad ar gosb gorfforol, naill ai yn llysoedd y DU neu yn Llys Hawliau Dynol Ewrop. | |

## Cyfeiriadau

---


[i] Llywodraeth Cymru (2018) "Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017", Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 42/2018 https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2017?_ga=2.77028887.343018073.1571655162-371484218.1569936415 [Fel ar: 14 Hydref 2019]

[ii] Dex, S a Joshi, H. (2004) "Millennium Cohort Study", Institute of Education, 2004

[iii] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) "The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research," A Review of Research Literature for the Office of the Children's Commissioner by the Children's Issues Centre, Prifysgol Otago. http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]

[iv] Halpenny, A.M., Nixon, E. a Watson, D., (2010) "Parents' Perspectives on Parenting Styles and Disciplining Children", Office of the Minister For Children and Youth Affairs https://www.tcd.ie/tricc/assets/pdfs/crc-archive/2010-Halpenny-Nixon-Watson-Parenting-Styles-and-Discipline-Summary-Report.pdf [Fel ar: 12 Chwefror 2019]

[v] Heilmann, A., Kelly, Y. a Watt, R.G. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children" Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Plant yn Gyntaf, Barnardo's yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015 https://learning.nspcc.org.uk/media/1117/equally-protected.pdf [Fel ar: 22 Chwefror 2019]

[vi] Robertson, L. (2017) "Literature review on outcomes of parental discipline styles, evidence on effective parenting styles and the international experience of prohibition of physical punishment in law". Glasgow: Scottish Centre for Crime and Justice Research https://www.sccjr.ac.uk/wp-content/uploads/2017/06/Literature-review-on-outcomes-of-parental-discipline-styles.pdf [Fel ar 28 Chwefror 2019]

[vii] Halpenny, A.M., Nixon, E. a Watson, D., (2010) Parents' Perspectives on Parenting Styles and Disciplining Children, Office of the Minister For Children and Youth Affairs https://www.tcd.ie/tricc/assets/pdfs/crc-archive/2010-Halpenny-Nixon-Watson-Parenting-Styles-and-Discipline-Summary-Report.pdf [Fel ar: 12 Chwefror 2018]

[viii] Heilmann, A., Kelly, Y. a Watt, R.G. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children" Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Plant yn Gyntaf, Barnardo's yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015, Tachwedd 2015 https://learning.nspcc.org.uk/media/1117/equally-protected.pdf [Fel ar: 22 Chwefror 2019]

[ix] Department for Children, Schools and Families (2007) "A study into the views of parents on the physical punishment of children for the Department for Children, Schools and Families (DCSF)", Hydref 2007: Ipsos Mori https://dera.ioe.ac.uk/6886/8/Section%2058%20Parental%20Survey.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]

[x] Gershoff, E.T (2010) "More Harm Than Good: A summary of scientific research on the intended and unintended effects of corporal punishment on children", 73 Law and Contemporary Problems 31-56 (Spring 2010) Ar gael yn: https://scholarship.law.duke.edu/lcp/vol73/iss2/3 [Fel ar: 14 Chwefror 2019]

[xi] Gravitas Research and Strategy (2005) Strategies with Kids – Information for Parents (SKIP) Research Report, Prepared for Centre for Social Research and Evaluation https://www.msd.govt.nz/about-msd-and-our-work/publications-resources/research/skip-research/index.html [Fel ar: 14 Hydref 2019]

[xii] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) "The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research," A Review of Research Literature for the Office of the Children's Commissioner by the Children's Issues Centre, Prifysgol Otago. http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]

[xiii] Llywodraeth Cymru (2018) "Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017", Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 42/2018 https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2017?_ga=2.173391777.343018073.1571655162-371484218.1569936415 [Fel ar: 14 Hydref 2019]

[xiv]

[xv] Howarth, J. (2013) "Child Neglect: Planning and Intervention", Palgrave Macmillan, ISBN: 978-0-230-20666-3
[xvi] Llywodraeth Cymru (2014) "Rheoli ymddygiad, agweddau ac arferion plant: Arolwg Llinell Sylfaen 2013, Rhif Ymchwil Gymdeithasol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth: 60/2014 https://llyw.cymru/arolwg-ar-agweddau-tuag-reoli-ymddygiad-plant?_ga=2.153066043.343018073.1571655162-371484218.1569936415 [Fel ar: 14 Hydref 2019]
[xvii] Llywodraeth Cymru (2018) "Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017", Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 42/2018 https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2017?_ga=2.173391777.343018073.1571655162-371484218.1569936415 [Fel ar: 14 Hydref 2019]
[xviii] Bunting L, Webb MA, Healy J (2008) "The 'smacking debate' in Northern Ireland – messages from research". Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/smacking-debate-northern-ireland-report.pdf [Fel ar: 21 Chwefror 2019]
[xix] Barrett, H. (2003) "Parenting Programmes for Families at risk" Llundain: National and Family and Parenting Institute, ISBN: 978-1903615263
[xx] Bywater T, Hutchings J, Daley D et al (2009) Long-term effectiveness of a parenting intervention for children at risk of developing conduct disorder. British Journal of Psychiatry 195:318–324.
[xxi] Barrett, H. (2010) "The delivery of parent skills training programmes. Metaanalytic studies and systematic reviews of what works best", Family And Parenting Institute http://library.bsl.org.au/jspui/bitstream/1/3475/1/TheDeliveryOfParentSkillsTrainingProgrammes.pdf
[xxii] Wijedasa, D. (2017) "Characteristics of children living with relatives in Wales" Prifysgol Bryste https://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/sps/documents/kinship/wales-kinstast-briefing-paper.pdf [Fel ar: 25 Chwefror 2019]
[xxiii] Bunting L, Webb MA, Healy J (2008): The 'smacking debate' in Northern Ireland – messages from research. Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/smacking-debate-northern-ireland-report.pdf [Fel ar: 21 Chwefror 2019]
[xxiv] Henricson, C. a Grey, A. (2001) "Understanding discipline", National Family and Parenting Institute, ISBN: 978-1903615058
[xxv] Utting, D. (2006) "Assessing and meeting the need for parenting support services: A literature Review", Family and Parenting Institute, ISBN: 978-1-903615-72-0
[xxvi] Contact a Family (2013a) "Understanding your child's behaviour: Information for families" Contact a Family, Ionawr 2013 https://contact.org.uk/media/380154/understandingchildbehaviour.pdf [Fel ar: 14 Hydref 2019]
[xxvii] Contact a Family (2013b) "Relationships and caring for a disabled child: Information for families", Contact a Family, Mai 2013 https://contact.org.uk/media/1157893/relationships.pdf [Fel ar: 14 Hydref 2019]
[xxviii] Llywodraeth Cymru (2015) "Strategaeth Tlodi Plant Cymru" https://llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-cymru-adroddiad [Fel ar: 14 Hydref 2019]
[xxix] Heilmann, A., Kelly, Y. a Watt, R.G. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children" Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Plant yn Gyntaf, Barnardo's yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015, Tachwedd 2015 https://learning.nspcc.org.uk/media/1117/equally-protected.pdf [Fel ar: 22 Chwefror 2019]
[xxx] Utting, D. (2006) "Assessing and meeting the need for parenting support services: A literature Review", Family and Parenting Institute, ISBN: 978-1-903615-72-0
[xxxi] Anabledd Dysgu Cymru (2008) "Bod yn Deulu: Teuluoedd ag Anableddau Dysgu yng Nghymru", Anabledd Dysgu Cymru (comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru)
[xxxii] Heb ddod o hyd i dudalen newydd
[xxxiii] O'Connor, T. a Scott, S. (2007) "Parenting and outcomes for children", Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

---

[xxxiv] Moullin, S. Waldfogel, J. a Washbrook, E. (2014) "Baby Bonds: Parenting, attachment and a secure base for children", Ymddiriedolaeth Sutton
[xxxv] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) "The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research," A Review of Research Literature for the Office of the Children's Commissioner by the Children's Issues Centre, University of Otago http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]
[xxxvi] Heilmann, A., Kelly, Y. & Watt, R.G. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children" Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Plant yn Gyntaf, Barnardo's yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015, Tachwedd 2015 https://learning.nspcc.org.uk/media/1117/equally-protected.pdf [Defnydiwyd: 22 Chwefror 2019]
[xxxvii] Llywodraeth Cymru (2011a) "Gwerthuso Dechrau'n Deg: Canfyddiadau'r arolwg llinell sylfaen o deuluoedd – mapio anghenion a mesur dylanwad cynnar ymysg teuluoedd â babanod rhwng 7 a 20 mis oed", Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 28/2011

[xxxviii] AFRUCA (2018) "Voices of the Community: Exploring attitudes towards physical chastisement among African communities in Greater Manchester", An AFRUCA Community Research Project, Medi 2018 https://www.afruca.org/wp-content/uploads/2018/09/AFRUCA-BOOKLET-V2.pdf [Fel ar :7 Chwefror 2019]

[xxxix] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) "The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research," A Review of Research Literature for the Office of the Children's Commissioner by the Children's Issues Centre, University of Otago http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]
[xl] Gershoff, E.T. (2010) "More Harm Than Good: A summary of scientific research on the intended and unintended effects of corporal punishment on children", 73 Law and Contemporary Problems 31-56 (Gwanwyn 2010) Ar gael yn: https://scholarship.law.duke.edu/lcp/vol73/iss2/3 [Fel ar: 28 Chwefror 2019]
[xli] Utting, D. (2006) "Assessing and meeting the need for parenting support services: A literature Review", Family and Parenting Institute, ISBN: 978-1-903615-72-0
[xlii] Llywodraeth Cymru (2015) "Strategaeth Tlodi Plant Cymru" https://llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-cymru-adroddiad [Fel ar: 14 Hydref 2019]
[xliii] Stats Cymru, Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig, Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2019
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup
[xliv] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (2003) "Adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr", Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2003

[xlv] Physical punishment: improving consistency and protection: Adroddiad annibynnol gan Syr Roger Singleton, Prif Gynghorydd ar Ddiogelwch Plant, Mawrth 2010

[xlvi] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) "The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research," A Review of Research Literature for the Office of the Children's Commissioner by the Children's Issues Centre, University of Otago http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]
[xlviixlvii] Heilmann, A., Kelly, Y. a Watt, R.G. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children" Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Plant yn Gyntaf, Barnardo's yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015, Tachwedd 2015 https://learning.nspcc.org.uk/media/1117/equally-protected.pdf [Fel ar: 12 Chwefror 2019]
[xlviii] Cawson, P., Wattam, C., Brooker, S. a Kelly, G. (2000) "Child maltreatment in the United Kingdom". Llundain: NSPCC.

[xlix] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) “The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research,” A Review of Research Literature for the Office of the Children’s Commissioner by the Children’s Issues Centre, University of Otago http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]

[l] Heilmann, A., Kelly, Y. a Watt, R.G. (2015) “Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children” Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Plant yn Gyntaf, Barnardo’s yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015, Tachwedd 2015 https://learning.nspcc.org.uk/media/1117/equally-protected.pdf [Fel ar: 22 Chwefror 2019]

[li] Llywodraeth Cymru (2015) “Strategaeth Tlodi Plant Cymru” https://llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-cymru-adroddiad [Fel ar: 14 Hydref 2019]

[lii] Schofield, T. L. (2016) “Knowing What We Don’t Know: A Meta-Analysis of Children Raised by Gay or Lesbian Parents” Iowa State University Digital Repository https://lib.dr.iastate.edu/ [Fel ar: 25 Chwefror 2019]

[liii] Heilmann, A., Kelly, Y. a Watt, R.G. (2015) “Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children” Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Plant yn Gyntaf, Barnardo’s yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015, Tachwedd 2015 https://www.tcd.ie/tricc/assets/pdfs/crc-archive/2010-Halpenny-Nixon-Watson-Parenting-Styles-and-Discipline-Summary-Report.pdf [Fel ar: 12 Chwefror 2018]

[lv] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) “The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research,” A Review of Research Literature for the Office of the Children’s Commissioner by the Children’s Issues Centre, University of Otago. http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]

[lvi] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) “The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research,” A Review of Research Literature for the Office of the Children’s Commissioner by the Children’s Issues Centre, University of Otago. http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]

[lvii] Early Intervention Foundation (2017) “Interparental relationships, conflict and the impacts of poverty: An overview” https://www.eif.org.uk/report/interparental-relationships-conflict-and-the-impacts-of-poverty-an-overview [Fel ar: 12 Chwefror 2019]

[lviii] Llywodraeth Cymru (2015) “Strategaeth Tlodi Plant Cymru” https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-tlodi-plant-i-gymru-adroddiad.pdf

[lix] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) “The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research,” A Review of Research Literature for the Office of the Children’s Commissioner by the Children’s Issues Centre, University of Otago. http://www.occ.org.nz/assets/Uploads/Reports/Parenting/Discipline-and-guidance-messages-from-research.pdf [Fel ar: 28 Chwefror 2019]

[lx] Heilmann, A., Kelly, Y. a Watt, R.G. (2015) “Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children” Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Plant yn Gyntaf, Barnardo’s yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015 https://learning.nspcc.org.uk/media/1117/equally-protected.pdf [Fel ar: 22 Chwefror 2019]

[lxi] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (2006): Sesiwn Pedwar Deg Dau. Sylw Cyffredinol Rhif 8: Hawl y plentyn i gael eu diogelu rhag cosb gorfforol a mathau eraill o gosb greulon neu ddiraddiol. Genefa: Y Cenhedloedd Unedig https://www.refworld.org/docid/460bc7772.html [Fel ar: 20 Chwefror 2019]